Dŵr Cymru
Welsh Water

# Gofal Llifogydd

## Beth y dylech ei wneud, a sut y gallwn ni helpu yn achos llifogydd



dwrcymru.com

PRE 0053

# Mae llifogydd yn ofnadwy, ac mae llifogydd carthion yn arbennig o erchyll.

**Mae llifogydd yn gallu digwydd am bob math o resymau, ac er ein bod ni'n gwneud popeth y gallwn ni i leihau'r risg, ni allwn eu hatal bob tro.**

Mae'r llyfryn hwn rhoi arweiniad clir, cam wrth gam i chi ynghylch:

- beth y dylech ei wneud yn achos llifogydd
- beth y gallwn ni ei wneud i helpu
- achosion llifogydd carthion, a phwy sy'n gyfrifol am unioni pethau, os o gwbl
- beth y gellir ei wneud i leihau'r risg bod yr un peth yn digwydd eto.

# Beth i'w wneud yn achos llifogydd

**1. Cysylltwch â'r bobl iawn:**
Ffoniwch ni (ddydd neu nos) ar 0800 085 3968 os ein carthffosydd ni yw achos y llifogydd. **Carthffosiaeth sy'n dianc trwy ddraen, pibell, tŷ bach neu dwll archwilio yw llifogydd carthion**. Byddwn ni'n dod allan i ymchwilio i achos y llifogydd ac i weld a oes rhywbeth y gallwn ei wneud i atal yr un peth rhag digwydd eto.

— **Cysylltwch â'ch cwmni Yswiriant ar unwaith** i roi gwybod iddynt am y llifogydd ac am unrhyw ddifrod a achoswyd. Byddan nhw'n gallu'ch helpu chi i drefnu'r gwaith o glirio a sychu eich eiddo, dod o hyd i lety dros dro i chi os oes angen, a rhoi cyngor a chymorth i chi hawlio am y difrod neu am unrhyw golledion. Rydyn ni'n argymell eich bod chi'n cysylltu â nhw ar unwaith, oherwydd gallai peidio â rhoi gwybod iddynt am y broblem effeithio ar unrhyw hawliadau a wnewch.

— Weithiau, dŵr wyneb o'r briffordd sy'n achosi'r llifogydd.Cyfrifoldeb yr Awdurdod Priffyrdd yw hyn (eich cyngor lleol fel rheol). Nhw sy'n gyfrifol am gynnal gylïau yn y ffordd a draeniau yn y briffordd. Os ydych chi'n meddwl taw dŵr o'r ffordd sydd wedi achosi'r llifogydd, cysylltwch â'ch cyngor sir lleol.

— Llifogydd o nentydd, afonydd, tiroedd neu'r môr - Cyfoeth Naturiol Cymru (Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr) sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o amddiffynfeydd rhag llifogydd ar afonydd. Weithiau gall lefelau dŵr uchel mewn afonydd beri i systemau draenio eraill – gan gynnwys carthffosydd – orlenwi gan achosi llifogydd. Os ydych chi'n credu taw nentydd, afonydd neu'r môr sy'n achosi'r llifogydd, ffoniwch y Llinell Llifogydd ar 0845 988 1188.

## 2. Cadwch gofnod

— Mae tynnu ffotograffau o'r ardal lle mae'r llifogydd yn gallu helpu i ganfod beth yw achos y llifogydd, ac ategu unrhyw hawliadau yswiriant a gyflwynwch chi. Os yw hi'n ddiogel gwneud hynny, tynnwch ffotograffau neu gwnewch ffilm o'r ardal i'w dangos i ni ac i'ch cwmni yswiriant.

## 3. Cadwch yn ddiogel

— Os yw hi'n ddiogel gwneud hynny, diffoddwch y trydan yn y blwch ffiwsiau. Os yw eich mesurydd trydan, eich blwch ffiwsiau neu unrhyw declyn neu soced trydan dan ddŵr, cysylltwch â'ch cyflenwr trydan am gyngor cyn defnyddio unrhyw offer trydan.

- Os yw eich mesurydd nwy neu unrhyw declyn nwy dan ddŵr, cysylltwch â'ch cyflenwr nwy am gyngor cyn cynnau'r nwy neu danio unrhyw declyn.

- Sicrhewch fod eich cartref wedi ei awyru'n dda (ynghyd ag unrhyw gyfadeiladau).

- Os ydych chi'n poeni am unrhyw risgiau i iechyd, ffoniwch y tîm iechyd yr amgylchedd yn eich awdurdod lleol.

## 4. Amddiffynnwch eich iechyd

- Dŵr a gwastraff o ystafelloedd ymolchi a cheginau yw llifogydd carthion yn bennaf. Mewn tywydd gwlyb, mae'n debygol o gael ei wanhau'n sylweddol gan ddŵr glaw.

- Os dilynwch chi'r rhagofalon hylendid sylfaenol, rydych chi'n annhebygol o fod mewn perygl o ran eich iechyd os oes llifogydd carthion yn eich cartref.

- Dylech:
  - Wisgo menig rwber wrth ddod i gysylltiad â'r dŵr brwnt
  - Cadw llygad am wydr, hoelion a phethau miniog eraill
  - Golchi'ch dwylo pob tro y dewch chi i gysylltiad â'r dŵr
  - Golchi a thrin esgidiau â diheintydd addas
  - Cadw plant ac anifeiliaid anwes draw o'r ardal halogedig.

- Mae hi'n annhebygol, ond os dechreuwch chi deimlo'n sâl, ewch i weld eich meddyg teulu ac esboniwch fod llifogydd wedi bod yn eich eiddo'n ddiweddar.

# Beth gallwn ni ei wneud?

**Byddwn ni'n ymateb i ddigwyddiadau o lifogydd carthion bob tro, 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, 365 diwrnod y flwyddyn. Ein nod yw eich cyrraedd chi cyn gynted â phosibl, ddydd neu nos. Weithiau, ac yn enwedig mewn tywydd eithafol, gall gymryd yn hirach i'ch cyrraedd chi, ond byddwn ni'n rhoi gwybod i chi pryd y gallwch ddisgwyl ein gweld ni.**

Delio â'r broblem a chlirio'r llanast:

## Llifogydd Mewnol

Bydd eich cwmni yswiriant yn gwneud trefniadau i gael gwared ar unrhyw garpedi, dodrefn ac eitemau eraill a ddifrodwyd. Rydyn ni'n cynghori'n gryf bod ein holl gwsmeriaid yn sicrhau bod ganddynt bolisi yswiriant priodol sy'n eu hamddiffyn yn achos llifogydd carthion.

Os penderfynwch gael gwared ar unrhyw eitemau sydd wedi eu difrodi eich hun, cofiwch ofyn i'ch cwmni yswiriant yn gyntaf am ei bod hi'n bosibl y byddant am weld yr eitemau a ddifrodwyd eu hunain.

## Llifogydd Allanol

Oni bai bod eich cwmni yswiriant wedi gwneud trefniadau eraill, byddwn ni'n clirio'r holl falurion carthffosiaeth o'r ardaloedd o dan sylw ar ôl atal llif y dŵr. Byddwn ni'n cludo'r holl ddeunydd gwastraff i ffwrdd, a gyda'ch cytundeb chi, byddwn ni'n trin unrhyw fannau lle bu'r llifogydd â diheintydd.

Bydd angen i chi gyfyngu ar ddefnydd o'r ardaloedd dan sylw nes bod y gwaith yma wedi ei gwblhau, a gyda'ch cytundeb chi, byddwn ni'n neilltuo'r ardal. Mae canllawiau'r diwydiant dŵr yn cynghori y bydd yr ardd yn ddiogel ar ôl cyfnod clirio a neilltuo fel a ganlyn:

| Tymor | Tywarch/Clai | Pridd/Tywod/Gro/Rhisgl |
|---|---|---|
| Gwanwyn | 13 diwrnod | 20 diwrnod |
| Haf | 6 diwrnod | 9 diwrnod |
| Hydref | 13 diwrnod | 20 diwrnod |
| Gaeaf | 18 diwrnod | 11 diwrnod |

# Beth fydd yn digwydd nesaf?

Rydyn ni'n ymchwilio i bob achos o lifogydd carthion. Bydd aelod o dîm Dŵr Cymru yn dod i gwrdd â chi, ac fe wnawn ni bopeth y gallwn ni i ddeall pam ddigwyddodd y llifogydd. Byddwn ni'n clustnodi person cyswllt o'r gwasanaethau cwsmeriaid i chi, a'r person hwn fydd eich pwynt cyswllt â ni trwy gydol proses yr ymchwiliad.

Byddwn ni'n cyflawni ymchwiliad llawn, gan gynnwys cyflawni arolwg CCTV o'r garthffos er mwyn helpu i ganfod achos y llifogydd. Byddwn ni'n cysylltu â chi cyn pen deg diwrnod gwaith ar ôl i'r llifogydd ddigwydd i roi gwybod i chi sut mae pethau'n mynd, a beth fydd y camau nesaf yn y broses.

Mae hi'n bosibl y bydd angen cyflawni ymchwiliadau pellach mewn ambell i achos. Gallai hyn fod yn gymhleth, a gallai gymryd amser - felly rydyn ni'n gofyn i chi fod yn amyneddgar â ni.

Os yw'r system garthffosiaeth gyhoeddus wedi achosi'r llifogydd, byddwn ni'n ceisio datrys y broblem. Os na, byddwn ni'n rhoi gwybod i chi beth y gallwn ni ei wneud i helpu. Mae'n bosibl nad ni fydd yn gyfrifol am y llifogydd, ac y bydd angen cysylltu â sefydliadau eraill, fel yr awdurdod lleol. Os cawn fod rhywun arall yn atebol am y llifogydd, byddwn ni'n cysylltu â nhw'n uniongyrchol gan esbonio beth rydyn ni wedi ei ganfod, ac yn gofyn iddynt weithredu cyn gynted â phosibl. Os oes angen cyflawni prosiect graddfa fwy i ddatrys y broblem, byddwn ni'n rhoi gwybod i chi



Mewn argyfwng, fe ddown ni **24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, 365 diwrnod y flwyddyn.**

# Achosion llifogydd carthion a phwy, os rhywun, sy'n gyfrifol am unioni pethau

**Yma yn Dŵr Cymru, rydyn ni'n gweithio'n galed i sicrhau bod ein rhwydwaith o garthffosydd mewn cyflwr gweithredol da. Mae yna adegau pan fydd pethau sydd y tu hwnt i'n rheolaeth yn achosi llifogydd carthion, ac nad oes modd i ni dderbyn atebolrwydd felly, er enghraifft:**

- Os yw'r llifogydd yn digwydd o ganlyniad i dagfa yn y bibell - mae hyn yn digwydd pan fo pobl yn fflysio pethau a ddylai fynd yn y bin i lawr y tŷ bach. Mae hyn yn cynnwys weips, nwyddau mislif, a braster, olew a saim o goginio.
- Pan nad yw'r system garthffosiaeth yn gallu ymdopi â faint o ddŵr gwastraff a dŵr glaw sy'n mynd drwyddi, oherwydd tywydd eithriadol fel rheol, gan gynnwys cyfnodau dwys neu hir o law - gorlwyth hydrolig yw'r enw ar hyn.
- Os yw'r llifogydd o bibellau carthffosiaeth sydd mewn perchnogaeth breifat (h.y. y rhan o'r garthffos neu'r draen sy'n gyfrifoldeb i chi).
- Os taw chi sydd wedi achosi'r llifogydd yn rhyw ffordd (er enghraifft, os ydych chi wedi achosi difrod o ryw fath i'n pibell garthffosiaeth).

Fodd bynnag, os taw un o'n carthffosydd sydd wedi achosi'r llifogydd, bydd gennych hawl i daliad trwy ein Safonau Gwasanaeth Gwarantedig (GSS), yn unol â rheoliadau'r diwydiant. Ceir rhagor o fanylion am y taliadau hyn isod.


## Gwerthoedd taliadau GSS

- **GSS - Llifogydd carthion mewnol:** os ydych chi wedi dioddef llifogydd carthion mewnol o'n carthffosydd (pan fo carthffosiaeth yn llifo i adeilad, cartref neu garej mewnol), byddwn ni'n rhoi taliad i chi sydd gyfwerth â'ch bil carthffosiaeth blynyddol (isafswm o £150 ac uchafswm o £1000) fesul digwyddiad cyn pen 20 diwrnod gwaith.
- **GSS - Llifogydd carthion allanol difrifol:** os oes carthffosiaeth yn llifo i'ch tir neu'ch eiddo gan eich atal rhag cyrraedd eich cartref; yn achosi llifogydd helaeth yn eich gardd gan ei ddifa i bob pwrpas, neu os bydd ein carthffosydd yn gorlifo i'ch cyfadeiladau/garejys nad ydynt yn gysylltiedig â'ch cartref, byddwn ni'n rhoi taliad i chi sydd gyfwerth â hanner eich bil carthffosiaeth blynyddol (isafswm o £75 ac uchafswm o £500 fesul digwyddiad) cyn pen 20 diwrnod gwaith.

**Mae unrhyw daliadau GSS a gewch chi ar wahân, ac yn ogystal ag, unrhyw hawliadau eraill a gyflwynwch i'ch cwmni yswiriant. Nid yw taliad GSS o reidrwydd yn golygu ein bod ni'n derbyn atebolrwydd.**

**Cofiwch -** dylai eich cwmni yswiriant dalu allan, dim ots pwy sydd ar fai. Os oes rhywun (gan gynnwys ni!) ar fai, yna bydd eich cwmni yswiriant yn delio â'r hawliad ar eich rhan.

## Pwy sy'n gyfrifol am dagfeydd mewn carthffosydd?



# Sut y gallwch chi helpu

Yn anffodus, mae rhai ardaloedd yn dioddef problemau gyda llifogydd dro ar ôl tro, ac rydyn ni'n buddsoddi llawer o arian ac ymdrech i leihau'r risg o lifogydd o'r math yma. Mae hi'n bwysig iawn eich bod chi'n dweud wrthym bob tro y cewch lifogydd fel y gallwn eich helpu chi - a chadw cofnod cywir o bwy sydd wedi dioddef llifogydd fel y gallwn ni wella'r rhwydwaith yn y dyfodol.

Fodd bynnag, mae nifer fawr o ddigwyddiadau o lifogydd yn cael eu hachosi gan bobl yn fflysio pethau anaddas i lawr y tŷ bach, y sinc neu'r draen. Cofiwch:

**Rhaid taflu pob math o weips, rhai golchi wyneb, babanod, glanhau, a weips cyffredin (hyd yn oed os yw'r pecyn yn dweud bod modd eu fflysio, maent yn gallu achosi tagfeydd), nwyddau mislif, cewynnau a ffyn gwlân cotwm** yn y bin. Dyma'r prif bethau sy'n achosi tagfeydd.

**Mae braster, olew'r gegin a saim** (a elwir yn FOG) a **gwastraff bwyd** yn achosi tagfeydd difrifol hefyd. Sychwch eich sosbenni a llestri seimllyd eraill â darn o bapur cegin cyn eu golchi. Taflwch y papur cegin yn y bin, ac arllwyswch unrhyw olew coginio sydd dros ben i gynhwysydd i'w waredu neu ei ailgylchu.

Peidiwch â chwistrellu/ysgubo pethau fel **mwd, glaswellt, gwastraff anifeiliaid a gwastraff arall yr ardd** i dwll archwilio agored. Dylech gael gwared ar y pethau hyn mewn biniau/sachau gwaredu gwastraff yr ardd

# Blaengynlluniwch

**Os ydych chi'n gwybod eich bod chi mewn perygl o lifogydd, gallwch sicrhau eich bod chi'n barod:**

- Cadwch gyflenwad o sachau tywod wrth law er mwyn atal y llifogydd rhag llifo i'ch eiddo
- Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n gwybod sut i ddiffodd eich cyflenwadau nwy a thrydan
- Crëwch becyn llifogydd gan gynnwys fflachlamp, blancedi, welis, dillad diddos, menig - a manylion cyswllt hanfodol
- Storiwch y pethau sydd bwysicaf i chi uwchlaw lefel y ddaear neu i fyny'r grisiau.

# Manylion Cysylltu mewn Argyfwng

**Y peth cyntaf i'w wneud os cewch lifogydd yw cysylltu â'r bobl iawn**



## Dŵr Cymru

**Gwasanaethau ac Argyfyngau Carthffosiaeth**
0800 085 3968
Cysylltwch â ni os ydych yn dioddef llifogydd gan fod carthion wedi dianc o draen, pibell, toiled neu drwy siambr archwilio.

**Gwasanaethau ac Argyfyngau Dŵr**
0800 052 0130

## Rhifau defnyddiol eraill:

**Floodline**
0845 988 1188
Ffoniwch y rhif hwn os ydych yn dioddef llifogydd o'r afon neu'r môr.

**Cwmni yswiriant cynnwys fy nghartref:**

..............................................................

**Cwmni yswiriant adeiladau fy nghartref:**

..............................................................

**Fy nghwmni cyflenwi trydan:**

..............................................................

**Fy nghwmni cyflenwi nwy:**

..............................................................

**Fy mhlymer:**

..............................................................

**Os ydych mewn perygl neu os oes rhywun wedi'i anafu, ffoniwch 999 ar unwaith.**